



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

EUROPEANA:

Yn gyrru trawsnewid digidol

Harry Verwayen, Cyfarwyddwr Gweithredol, [Sefydliad Europeana](#)

Un o effeithiau Blwyddyn Treftadaeth Ddiwylliannol Ewrop 2018 oedd deffro'r rheiny sy'n gweithio ym maes treftadaeth ddiwylliannol i'r effaith gymdeithasol ac economaidd y gall ein sector ei chael. Yn ogystal â chyfrannu at hwyluso mynediad diwydiannau diwylliannol a chreadigol i adnoddau gwerthfawr, gwelir y sector fwyfwy fel labordy Ymchwil a Datblygu, fel tir ffrwythlon, fel amgylchedd lle gellir ymgymryd ag arbrofi technolegol, ymddygiadol a threfniadaethol yn gymharol ddiogel.

Yr un pryd, mae'r byd o'n cwmpas yn parhau i newid. Mae dealltwriaeth artiffisial yn bwydo ar y Data Mawr rydym i gyd yn ei fasgynhyrchu ac mae bydoedd peiriant-ddarllenadwy newydd mewn 3D yn cael eu creu yn garejis Silicon Valley. Dychmygwch ddyfodol lle bydd gan bopeth ffisegol gynrychioliad digidol, 'drych-fyd' o wybodaeth ar ben y byd go iawn, sy'n hygyrch i chi drwy ddyfeisiau realiti estynedig. Fe fyddwn ni'n gallu gweld y cyfan ar unwaith. A chwarae ag ef, dysgu oddi wrtho. Meddylwch amdano fel math o Google Earth. Ond dydych chi ddim yn ei gyrchu ar liniadur neu ffôn yn eich llaw. Yn lle hynny, caiff ei blethu â'r byd go iawn – math o bedwerydd dimensiwn ag iddo gynrychioliad o bob agwedd ar y byd ffisegol.

Er ei bod hi'n swnio fel ffuglen wyddonol, gallai ein byd ni edrych fel hyn ymhen ychydig o flynyddoedd. Cafodd data ei wneud yn gydgysylltiol gan y we; cafodd ei wneud yn gymdeithasol gan gyfryngau cymdeithasol. Gyda'r platfform nesaf, medd rhai, gwelir cydgyfeirio'r bydoedd digidol a ffisegol.

Yr hyn y mae'n hollbwysig i ni ei ddeall fel sector yw sut y gallwn barhau'n berthnasol yn y byd hwn o newid cyflym. Beth yw rôl treftadaeth ddiwylliannol (clyweled)?

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Sut y gallwn feithrin a diogelu lle cyhoeddus llewyrchus? Sut y gallwn fanteisio ar dechnoleg newydd? Beth yw rôl safonau rhyngweithredadwy?

Po fwyaf ein profiad o hanes, celf a gwyddoniaeth, mwyaf i gyd ein dealltwriaeth o genedlaethau'r gorffennol a'r cysylltiad rhyngddynt a'n cenedlaeth ni. A pho fwyaf y deallwn ein gilydd, gorau i gyd y gallwn weithio a byw gyda'n gilydd. Dyna'r syniad. Wrth i'n cymdeithas drawsnewid o un analog i un sy'n gweithredu fwyfwy mewn ffyrdd digidol, dylai'r sector treftadaeth ddiwylliannol gofleidio'r cyfleoedd i wneud ein treftadaeth fwyfwy'n rhan o'r presennol, a'i pharatoi at y dyfodol.

Gan ddefnyddio Europeana yn enghraifft, byddwn yn ystyried sut y gallai'r byd newydd hwn edrych a'r hyn y gallwn ei wneud i chwarae rhan ystyrllon yn ystod y degawd nesaf.

Bywgraffiad

Harry Verwayen yw Cyfarwyddwr Gweithredol Sefydliad Europeana, sy'n gweithredu'r platfform Europeana. Mae amgueddfeydd, orielau ac archifdai ar hyd a lled Ewrop wrthi'n digido eu casgliadau. Nod Europeana yw cefnogi gwaith trawsnewid digidol y sefydliadau hyn er mwyn sicrhau bod eu casgliadau mor hygyrch â phosibl i'r cyhoedd. Cyn hyn bu Harry'n gweithio i'r 'seiat ddoethion' [Knowledgeland](#) yn Amsterdam lle roedd yn gyfrifol am ddatblygu modelau busnes arloesol ar gyfer y sector treftadaeth ddiwylliannol. Mae gan Harry MA mewn Hanes o Brifysgol Leiden a bu'n gweithio am fwy na deng mlynedd yn y Diwydiant Cyhoeddi Academaidd.



[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.